## Dewch i Drochi gyda'r

# GADGETEERS

## Pecyn Cymorth Gweithgareddau

## 2022



Illustrations by Julian Beresford and © The Reading Agency 2022

SUMMER READING CHALLENGE

Story Trails

UNBOXED
CREATIVITY IN THE UK

# Tabl Cynnwys


Tabl Gweithgareddau .......... 1

Cyflwyniad .......... 4

Sut i Ddefnyddio'r Pecyn hwn .......... 5

Pethau fydd eu hangen arnoch .......... 5

Canfod Eich Llwybr .......... 6

Adrodd Eich Stori .......... 9

Ehangu'r Byd .......... 15

Rhannu'r Stori .......... 19

Ap StoryTrails .......... 20

The Atlas of Great Journeys .......... 21

Cynlluniau Sesiwn .......... 22

Canllawiau/Gwybodaeth Ychwanegol .......... 24

- Teclynwyr – Sialens Ddarllen yr Haf 2022 .......... 24
- The Reading Agency .......... 24
- StoryTrails .......... 26
- UNBOXED: Creativity in the UK .......... 27
- StoryFutures Academy .......... 27
- The Atlas of Great Journeys gan Philip Steele, darluniwyd gan Christian Gralingen (Welbeck, 2021) .......... 28
- Awdur: Philip Steele .......... 28
- Darlunydd: Christian Gralingen .......... 28

Canllawiau Diogelwch Digidol .......... 29

Gerifa .......... 30

# Activities Table

| Adran | Gweithgaredd | Ap/Adnodd | Cyfarpar sydd ei Angen |
|---|---|---|---|
| **Canfod Eich Llwybr** | **Picker Wheel**<br>Meddyliwch am ddeg syniad gwahanol am stori, cymeriad neu leoliad a defnyddiwch Picker Wheel i ddewis un ar hap. | Picker Wheel | Dyfais gyda chysylltiad â'r rhyngrwyd (ffôn clyfar, cyfrifiadur llechen neu gyfrifiadur) er mwyn mynd ar wefan Picker Wheel<br>**Dewis amgen heb dechnoleg**<br>Papur a beiros/pensiliau |
| | **Bwrdd stori**<br>Ewch ati i greu bwrdd stori i weld eich stori mewn darluniau. | | Papur a beiros/pensiliau |
| | **Fy Lle i**<br>Gofynnwch i'r grŵp rannu eu hoff le yn y dref, eu hoff beth am y dref a gofynnwch iddyn nhw rannu stori gysylltiedig. | | |
| | **ZBrushCoreMini**<br>Ewch ati i greu gwrthrych 3D y gellir ei allforio a'i ddefnyddio mewn apiau eraill i greu profiad realiti estynedig. | ZBrushCoreMini | Cyfrifiadur sy'n rhedeg fersiynau 64-bit o Windows 7 neu fersiwn ddiweddarach, neu Mac OSX: 10.11 neu uwch.<br>**Dewis amgen heb dechnoleg**<br>Deunyddiau crefft (ee. cardbord, glud, papur, plastisîn) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adrodd Eich Stori** | **Creu Afatar**<br>Defnyddiwch Scaniverse i greu sgan 3D o unigolyn y gallwch wedyn ei roi drwy'r modd gweld Realiti Estynedig. | **Scaniverse** | iPhone neu iPad sy'n rhedeg iOS neu iPadOS 14.0 neu ddiweddarach, gyda sglodyn Bionig A12 neu ddiweddarach (ee. iPhone 12 Pro, iPhone 13 Pro, Apple iPad Pro). |
| | **Cardiau Post Stori**<br>Tynnwch lun o'ch Afatar Realiti Estynedig ac yna ei argraffu ar gerdyn post. Yna ysgrifennwch eich stori ar y cerdyn post er mwyn ei rhannu ag eraill. | **Scaniverse** | iPhone neu iPad sy'n rhedeg iOS neu iPadOS 14.0 neu ddiweddarach, gyda sglodyn Bionig A12 neu ddiweddarach (ee. iPhone 12 Pro, iPhone 13 Pro, Apple iPad Pro) (i redeg Scaniverse).<br><br>Beiros a Phapur |
| | **Creu Afatar Dawnsio**<br>Ewch ati i animeiddio'r afatar rydych chi wedi'i sganio a'i greu'n barod gan ddefnyddio Scaniverse. | **Mixamo** | Dyfais gyda mynediad i'r rhyngrwyd i ddefnyddio Mixamo (ap ar y we).<br><br>Bydd angen i chi greu cyfrif i ddefnyddio Mixamo. |
| | **Creu eich Profiad Realiti Estynedig eich hun**<br>Ewch ati i greu profiad realiti estynedig gan ddefnyddio'r afatar rydych chi wedi'i sganio a'i animeiddio, neu wrthrychau 3D rydych chi wedi'u creu yn ZBrushCoreMini (neu gallwch ddefnyddio asedau parod). Ychwanegwch elfennau eraill fel animeiddio a sain i ehangu eich stori. | **Adobe Aero** | iPhone neu iPad sy'n rhedeg iOS neu iPadOS 13.1 neu ddiweddarach NEU gyfrifiadur sy'n rhedeg Windows 10 neu macOS 10.13. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ehangu'r Byd** | **Creu Diorama**<br>Ewch ati i greu model o leoliad eich stori i'w rannu ag eraill. | | Deunyddiau crefft ee. plastisîn, lego, deunyddiau ailgylchu fel cardbord, poteli plastig |
| | **Adrodd Straeon Synhwyraidd**<br>Bring a story to life by using all five senses. | | Mae'r deunyddiau sydd eu hangen arnoch yn amrywio yn dibynnu ar y stori rydych chi'n ceisio ei hadrodd |
| | **Perfformiad Promenâd**<br>Ewch ati i adrodd stori drwy berfformio o amgylch eich llyfrgell, ysgol neu ofod cymunedol. | | Propiau a gwisgoedd i'ch helpu i adrodd y stori |
| | **Creu Cerddoriaeth**<br>Ewch ati i greu cerddoriaeth neu seinwedd er mwyn helpu i adrodd eich stori a throchi eich cynulleidfa yn yr amgylchedd rydych chi wedi'i greu. | **Keezy**<br><br>**Garageband** | **Ar gyfer Keezy**<br>IPhone, iPod Touch neu iPod sy'n rhedeg iOS / iPadOS 8.0 neu ddiweddarach.<br><br>**Ar gyfer Garageband**<br>IPhone, iPod Touch neu iPod sy'n rhedeg iOS / iPadOS 15.0 neu ddiweddarach, NEU Mac yn rhedeg macOS11.5 neu ddiweddarach. |



# Cyflwyniad

**Mae StoryTrails yn brofiad adrodd straeon unigryw sy'n trochi. Ei nod yw caniatáu i bobl leol gael blas ar eu tref mewn ffordd gwbl newydd drwy dechnoleg ymgolli, gan gynnwys realiti estynedig realiti rhithwir. Bydd pobl yn gallu defnyddio'r dechnoleg newydd hon i deithio'n ôl mewn amser, gan brofi straeon o'u cymuned leol sydd heb eu hadrodd o'r blaen.**

Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn rhaglen ymgysylltu â darllen a gaiff ei darparu'n flynyddol gan The Reading Agency. Ei nod yw mynd i'r afael â'r gostyngiad sylweddol yn y darllen sy'n digwydd yn ystod yr haf drwy annog plant 4 - 11 oed i ddarllen er pleser dros wyliau'r haf drwy osod targed darllen, darllen eu llyfrau a derbyn gwobrau a chymhellion ar hyd y ffordd. Thema'r Her eleni yw 'Teclynwyr'. Bydd yr Her, sydd wedi'i datblygu mewn cydweithrediad â'r Science Museum Group, yn dangos i blant bod gwyddoniaeth yn bodoli o'n cwmpas bob dydd ac yn eu hysbrydoli i ryddhau eu chwilfrydedd a'u creadigrwydd!

Mae'r pecyn hwn yn dwyn ynghyd StoryTrails a Sialens Ddarllen yr Haf, gan ddarparu gweithgareddau i helpu plant a phobl ifanc i archwilio themâu arloesi, technoleg a dull trochi o adrodd straeon. Felly, beth ydyn ni'n ei olygu pan fyddwn ni'n dweud 'dull trochi o adrodd straeon'?

## Dull Trochi o Adrodd Straeon

Ystyr Dull Trochi o Adrodd Straeon yw defnyddio technolegau ymgolli, fel realiti estynedig a realiti rhithwir, i adrodd stori.

Ystyr realiti estynedig (AR) yw pan fo gwrthrychau digidol yn ymddangos yn y byd ffisegol, fel arfer drwy sgrin ffôn symudol, neu sgrin ryngweithiol fawr. Bydd StoryTrails yn defnyddio AR **i ddod ag archif, pobl, lleoedd a gwrthrychau o'r gorffennol i'r byd go iawn**, gan alluogi cynulleidfaoedd i brofi hanes yn eu hamgylchedd lleol mewn ffyrdd newydd a chyffrous.

Ystyr realiti rhithwir (VR) yw'r defnydd o dechnoleg gyfrifiadurol i greu efelychiad o amgylchedd neu amgylchedd wedi'i ddychmygu'n llwyr y mae defnyddiwr wedyn yn mynd i mewn iddo'n llwyr. Mae StoryTrails wedi comisiynu 9 cwmni creadigol **i greu profiadau VR** sy'n ail-ddychmygu ac ail-ddehongli archifau cyfryngau cenedlaethol.

Drwy ddefnyddio'r technolegau hyn, gall storïwyr greu profiad i ddefnyddwyr sy'n agor bydoedd iddyn nhw na fydden nhw efallai'n eu profi fel arall.

# Sut i Ddefnyddio'r Pecyn hwn

**Mae'r pecyn hwn yn llawn adnoddau a gweithgareddau i'ch helpu i ddathlu gwyddoniaeth ac arloesedd drwy eich gweithgareddau eich hun yr haf hwn. Mae'r gweithgareddau yn y pecyn hwn wedi'u rhannu'n bedair adran wahanol: Canfod Eich Llwybr, Adrodd Eich Stori, Ehangu'r Byd a Rhannu Eich Stori.**

Ym mhob adran, byddwch yn gweld adnoddau ac apiau, ac yna awgrymiadau o weithgareddau ar gyfer pob un, yn ogystal â rhai gweithgareddau nad oes angen technoleg ar eu cyfer.

Byddwch yn dod o hyd i awgrymiadau ar gyfer cynllunio sesiynau i'ch helpu i gynllunio sut i ddefnyddio'r gweithgareddau er mwyn creu profiad trochi gwirioneddol yn eich llyfrgell, eich ystafell ddosbarth neu eich cymuned. Mae rhagor o wybodaeth am yr Ap StoryTrails a sut i'w ddefnyddio er mwyn rhoi cynnig ar y mapiau Gofodol a grëwyd ar gyfer y prosiect - hyd yn oed os nad ydych chi'n byw mewn lleoliad StoryTrails!

## Pethau fydd eu hangen arnoch

Mae gan bob adnodd a gweithgaredd yn y pecyn hwn restr o'r cyfarpar y bydd ei angen arnoch chi a'r gofynion system angenrheidiol y bydd eu hangen arnoch chi i redeg unrhyw feddalwedd. Dyma restr o'r cyfarpar mwyaf cyffredin y bydd ei angen arnoch chi i gynnal y gweithgareddau:

- Ffôn clyfar neu gyfrifiadur llechen (Mae'r rhan fwyaf o'r apiau yn y pecyn Teclynwyr yn gofyn am ddyfais sy'n rhedeg iOS neu iPadOS 14.0 neu ddiweddarach, ond mae apiau ar gael hefyd sy'n rhedeg ar systemau gweithredu hŷn a dyfeisiau Android)
- Papur a Beiros/Pensiliau
- Deunydd sgrap, fel bocsys cardbord, deunydd wedi'i ailgylchu a hen bapurau newydd
- Clustffonau VR (dewisol)
- Copi o *The Atlas of Great Journeys* gan Philip Steele, a ddarluniwyd gan Christian Gralingen (dewisol)

Mae StoryTrails yn brosiect adrodd straeon digidol, ond rydyn ni'n deall na fydd gan rai grwpiau yr un lefel o fynediad digidol ag eraill. Ymhob rhan o'r Pecyn Teclynwyr, rydyn ni wedi cynnwys gweithgareddau nad oes angen technoleg arnoch i'w cwblhau fel y gall pob plentyn ymgolli yn y themâu dull trochi o adrodd straeon, yr arloesedd a'r creadigrwydd sy'n gyffredin i StoryTrails a phecyn Teclynwyr Sialens Ddarllen yr Haf.

# Canfod Eich Llwybr

Y cam cyntaf wrth adrodd straeon yw ceisio penderfynu pa stori rydych chi am ei hadrodd. Yn yr adran hon, fe welwch chi adnoddau, apiau a gweithgareddau i helpu plant i feddwl am syniadau am stori – boed yn ffuglen neu'n un ffeithiol – y gallen nhw fod am ei dweud drwy'r dull trochi o adrodd straeon.

## Picker Wheel

| | |
|---|---|
| **Gwefan** | https://pickerwheel.com/ |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Mae Picker Wheel yn ddewiswr ar hap cyflym a hawdd. Rhowch eich opsiynau i mewn, trowch yr olwyn ac fe gewch ganlyniad. Mae'r ap hwn yn ffordd wych o ddewis o blith sawl opsiwn, er enghraifft pa gymeriad i'w ddefnyddio ar gyfer stori. |
| **Gweithgaredd** | Fel grŵp neu ar eich pen eich hun, meddyliwch am ddeg syniad gwahanol ar gyfer y stori rydych chi'n mynd i'w hadrodd. Rhowch yr opsiynau i gyd i mewn i'r olwyn, ac yna trowch yr olwyn i ddewis pa syniad rydych chi'n mynd i fod yn ei ddefnyddio ar gyfer eich stori! Gwnewch hyn i gyd eto gyda lleoliad eich stori a'r cymeriadau fydd yn ymddangos. |
| **Dewis Amgen Heb Dechnoleg** | Os nad oes gennych chi fynediad hawdd at ddyfais, gallwch chi ysgrifennu eich syniadau i lawr ar ddarnau o bapur sgrap yn lle, plygu'r papurau, ac yna eu rhoi mewn powlen. Tynnwch un allan ar hap i ddarganfod pa stori, lleoliad a chymeriad y byddwch chi'n eu defnyddio! |

**Syniad:** Cael trafferth meddwl am syniadau am gymeriadau? Beth am ddefnyddio **cymeriadau neu naratif Sialens Ddarllen yr Haf** fel ysbrydoliaeth!

Gallwch chi edrych ar eich hoff straeon i ddod o hyd i ysbrydoliaeth ar gyfer eich cymeriad eich hun hefyd.

## Bwrdd stori

Ar ôl i chi feddwl am syniad ar gyfer eich stori, eich lleoliad a'ch cymeriadau, mae'n bryd ymhelaethu ar y syniad. Ar gyfer pob cam allweddol o'ch stori, tynnwch lun (neu ffotograff!). Bydd hyn yn eich helpu wrth i chi greu'r gwahanol elfennau y byddwch chi'n eu defnyddio i adrodd eich stori.

## Fy Lle i

Defnyddiwch yr hyn y mae'r grŵp yn ei garu am eu hardal leol a'u straeon fel

ysbrydoliaeth ar gyfer stori. Gofynnwch i'r plant:

- Beth yw eu hoff le yn eu tref
- Beth maen nhw'n ei hoffi fwyaf am y lle hwnnw?
- Rannu eu hoff stori sy'n gysylltiedig â'r lle hwnnw.

## ZBrushCoreMini

| | |
|---|---|
| **Gwefan** | https://zbrushcore.com/mini/index.php |
| **Platfform/Gofynion** | Gofynion Sylfaenol y System<br>• Rhifynnau 64-did o Windows 7 neu fersiynau mwy newydd<br>• Mac OSX: 10.11 neu uwch<br>• CPU: Core2duo gyda thechnoleg SSE2 neu well<br>• RAM: 4GB (argymhellir yn gryf 6GB+)<br>• HDD: 8GB o le yn y gyriant caled ar gyfer y ddisg crafu<br>• Cyfrifiadur Llechen Gydag Ysgrifbin: Cyfrifiadur Llechen gydag ysgrifbin sy'n gydnaws â Llygoden neu Wacom (Carbon API)<br>• Monitor: Cydraniad monitor o 1280x1024 gyda miliynau o liwiau.<br><br>Cardiau'r rhan fwyaf wedi'u gweithgynhyrchu yn 2008 neu'n ddiweddarach. Mae'n rhaid iddo fod yn gydnaws â OpenGL 3.3 neu uwch. |
| **Pris** | Am ddim i'w ddefnyddio - Angen cofrestru |
| **Disgrifiad** | Mae ZBrushCoreMini wedi'i gynllunio ar gyfer artistiaid newydd o bob oed, ac mae ganddo ryngwyneb symlach sy'n golygu y gall unrhyw un fynd ati'n syth a dechrau cerflunio ar unwaith. Gan ddefnyddio ZBrushCoreMini, gallwch chi gerflunio sffêr neu floc carreg yn wahanol siapiau gan ddefnyddio brwsys cerflunio digidol. Yna gellir allforio'r modelau 3D hyn i raglenni eraill i'w defnyddio fel rhan o brofiad AR, neu eu hargraffu gan ddefnyddio argraffydd 3D. |

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | Mae ZBrushCoreMini yn ffordd syml o greu gwrthrych rhithwir 3D. Gall fod yn gymeriad, yn wrthrych pwysig i'r stori neu'n rhan o'r set.<br><br>Wrth ddechrau prosiect newydd, gallwch chi ddewis rhwng rhwyll siâp sffêr a rhwyll siâp petryal i ddechrau eich siâp. Ar ochr chwith y sgrin, fe welwch chi wahanol offer y gallwch chi eu defnyddio i ail-lunio'r rhwyll wreiddiol. Dewiswch un a chliciwch ar y siâp i olygu ei olwg. Gallwch chi newid lliw a gwead y siâp hefyd. Gallwch chi droi'r siâp drwy dde-glicio a llusgo'r siâp.<br><br>Ar ôl i chi orffen, gallwch chi allforio fel ffeil .obj i'w mewngludo i gymwysiadau eraill drwy glicio'r eicon ar frig y sgrin sy'n dweud 'Export for 3D Printing'. |
| **Mynd Gam Ymhellach** | Defnyddiwch Abode Aero i ychwanegu eich gwrthrych at brofiad AR – fe welwch chi fanylion ar sut i wneud hyn yn yr adran nesaf. |
| **Dewis Amgen Heb Dechnoleg** | Yn hytrach na chreu gwrthrych rhithwir, beth am greu un go iawn! Defnyddiwch ddeunyddiau sydd ar gael i chi i wneud model o'ch cymeriad neu wrthrychau pwysig eraill a fydd yn eich helpu i adrodd eich stori.<br><br>(Gallech ddefnyddio ap fel Scaniverse wedyn er mwyn sganio'ch gwrthrychau bywyd go iawn a'u hychwanegu at brofiad rhithwir). |

## Ffynonellau Eraill am Syniadau Stori

- Defnyddiwch archif eich llyfrgell i ymdrochi mewn straeon hanes lleol a rhannu'r straeon â'r grŵp. Defnyddiwch hyn fel ysbrydoliaeth ar gyfer eich stori.
- Estynnwch wahoddiad i arbenigwr ar hanes lleol siarad â'r grŵp a rhannu straeon lleol a dewiswch un i'w hadrodd.
- Gan ddefnyddio ap recordydd llais ar ffôn clyfar neu gyfrifiadur llechen (neu gyfarpar recordio arall os yw ar gael), gallai plant gyfweld ag eraill ynglŷn â'u straeon eu hunain. (Gallech chi ddefnyddio'r gweithgaredd 'Fy Lle i' fel sbardun ar gyfer cwestiynau i'w gofyn i'r rhai sy'n cael eu cyfweld).



# Adrodd Eich Stori


Ar ôl i chi benderfynu ar y stori rydych chi am ei hadrodd yn y dull trochi o adrodd straeon, mae'n bryd dechrau rhoi'r profiad at ei gilydd. Bydd yr adnoddau a'r gweithgareddau yn yr adran hon yn eich helpu i greu profiad trochi ar gyfer y rhai sy'n mynd i fwynhau eich stori.

Gyda chyfrifiadur llechen neu ffôn clyfar, gallwch chi sganio gwrthrychau neu bobl 3D i greu fersiwn ddigidol ohonyn nhw. Isod, rydyn ni'n rhannu apiau a syniadau i greu afatar sy'n dawnsio a dechrau datblygu stori gan ddefnyddio technoleg ymgolli.

Os nad oes gennych chi fynediad hawdd at ffôn clyfar neu gyfrifiadur llechen, neu os nad yw'r un sydd gennych chi yn gallu rhedeg yr apiau isod, gallwch chi ofyn i'r plant ddatblygu afatar ar bapur drwy dynnu llun, paentio neu wneud collage – neu gallen nhw greu cerflun afatar 3D gan ddefnyddio plastisîn neu Lego. Yna, gallwch chi wneud i'r afatar symud drwy ddefnyddio dull stop-symudiad, techneg gwneud ffilmiau wedi'u hanimeiddio lle rydych chi'n tynnu nifer o ffotograffau o'ch gwrthrychau, gan eu symud ychydig bach rhwng pob delwedd, a'u rhoi at ei gilydd i greu animeiddiad (gan ddefnyddio rhaglen gwneud ffilmiau neu ap fel **Stop Motion Studio**). Neu fe allech chi dorri'r afatar papur allan a'i droi'n byped drwy glymu llinyn iddo.

## Scaniverse

| | |
|---|---|
| **Gwefan** | https://scaniverse.com/ |
| **Platfform/ Gofynion** | **iOS**<br>Angen iOS neu iPadOS 14.0 neu ddiweddarach, a dyfais gyda'r sglodyn Bionig A12 neu ddiweddarach. Mae'n rhaid i'r ddyfais gael LiDAR ar gyfer sganio gwrthrychau hefyd (ee. iPhone 12 Pro, iPhone 13 Pro, Apple iPad Pro). |
| **Pris** | Am ddim |
| **Description** | Mae Scaniverse yn gadael i chi gipio, golygu a rhannu cynnwys 3D yn uniongyrchol o'ch ffôn. Gan ddefnyddio LiDAR, mae'n adeiladu modelau 3D cywair-bur gyda lefel syfrdanol o fanylder.<br><br>Gellir defnyddio scaniverse i sganio gwrthrychau a phobl.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am ddefnyddio Scaniverse er mwyn sganio gwrthrychau 3D ar gael yn **y canllaw hwn** gan IsoDesign. |


| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Creu Afatar**<br>Mae afatar yn gynrychiolaeth ddigidol o ddefnyddiwr, ei gymeriad neu ei bersona. Yn y gweithgaredd hwn, byddwch chi'n gwneud sgan 3D o unigolyn er mwyn ei droi'n afatar!<br><br>Er mwyn sicrhau eich bod yn cael sgan da, mae angen i chi symud o'r neilltu unrhyw wrthrychau sydd o amgylch yr unigolyn rydych chi am ei sganio, a gwnewch yn siŵr bod yr ardal sganio wedi'i goleuo'n dda gyda chyn lleied o gysgodion â phosibl.<br><br>Dylai'r unigolyn sydd i'w sganio sefyll ar ffurf T, gyda'i freichiau'n ymestyn allan a'r coesau ar wahân. Bydd angen iddo sefyll mor  llonydd â phosibl gan y bydd unrhyw symudiad yn amharu ar ansawdd y sgan. (Os nad ydych chi'n mynd i fod yn animeiddio'r afatar, gallai fod yn fwy cyfforddus sganio'ch unigolyn yn eistedd i lawr). Dylai'r unigolyn sy'n gwneud y broses sganio sefyll o flaen yr unigolyn, gan ddal y ddyfais sganio.<br><br>Ar ôl pwyso 'scan', bydd ardaloedd coch yn ymddangos o amgylch y targed sganio. Dylai'r person sy'n sganio symud yn araf o amgylch yr unigolyn sy'n cael ei sganio, gan waredu unrhyw rannau coch. Pan fydd yr holl ardaloedd coch wedi diflannu, mae'r sgan wedi'i gwblhau. Pwyswch 'scan' eto i roi'r gorau i sganio a dechrau golygu.<br><br>Cliciwch 'Edit' i docio'r sgan 3D rydych chi newydd ei greu. Yna bydd angen i chi newid maint y petryal gwyn ar bob golwg (golwg chwith, dde a brig) i gyd-fynd â dimensiynau'r model.<br><br>**Mynd Gam Ymhellach:** Os ydych chi'n adrodd stori ffuglen, gallech chi greu gwisg i un o'ch cymeriadau ei gwisgo pan fyddwch chi'n sganio'ch hun. Neu gael eich ysbrydoli gan y Teclynydd James a chreu sioe ffasiwn AR! |

| | |
|---|---|
| **Camau Nesaf** | **Cardiau Post Stori**<br>Ar ôl i chi sganio'ch unigolyn, gallwch chi ddefnyddio Scaniverse i osod eich gwrthrychau rhithwir yn y byd go iawn gan ddefnyddio Golwg Realiti Estynedig (AR View). Dewch o hyd i le i roi eich afatar sy'n adrodd stori -wrth ymyl ei hoff wrthrych neu lyfr er enghraifft – a defnyddiwch yr ap i dynnu llun ohono.<br><br>Argraffwch y ddelwedd rydych chi wedi'i chreu a'i rhoi ar gerdyn post. Ar gefn y cerdyn, gofynnwch i'r plant ysgrifennu stori am y gwrthrych neu'r unigolyn sydd wedi'i sganio. Defnyddiwch y Cardiau Post Stori hyn i greu arddangosfa yn eich llyfrgell y gall pawb ei mwynhau.<br><br>**Creu Afatar sy'n Dawnsio**<br>Daliwch ati i ddarllen i gael gwybod sut gallwch chi ddefnyddio cymwysiadau fel Mixamo i animeiddio'r Afatar rydych chi newydd ei sganio. |

## Mixamo

| | |
|---|---|
| **Gwefan** | https://www.mixamo.com |
| **Platfform/ Gofynion** | Ap ar y we |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Ap hawdd ei ddefnyddio yw Mixamo y gallwch chi ei ddefnyddio i animeiddio cymeriadau 3D. Daw gyda llyfrgell o gymeriadau ac animeiddiadau sy'n barod i'w defnyddio ac y gallwch chi eu defnyddio mewn ffilmiau, gemau, profiadau rhyngweithiol a darluniadau. |




| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Animeiddio Eich Afatar**<br><br>Ar ôl i chi sganio unigolyn i greu afatar gan ddefnyddio Scaniverse, gallwch chi ddefnyddio Mixamo i ychwanegu animeiddiadau.<br><br>Yn gyntaf, ewch i'r **wefan** a chreu cyfrif. Yna cliciwch ar 'Upload Character' i lanlwytho'r cymeriad. Llusgwch a gollwng y ffeil .obj (yr un y gwnaethoch chi ei allgludo o Scaniverse, er enghraifft). Yna mae angen i chi rigio eich cymeriad yn awtomatig drwy osod y marcwyr ar wahanol rannau o'r corff yn ôl y cyfarwyddiadau.<br><br><br>Dev ewch ati i adolygu eicl 'n hapus, cliciwch ar 'Do |

## Adobe Aero

| | |
|---|---|
| **Gwefan** | https://www.adobe.com/uk/products/aero.html |
| **Platfform/ Gofynion** | Angen iOS neu iPadOS 13.1 neu ddiweddarach.<br><br>**Desktop (Beta)**<br>**Windows**<br>• Win 10 64-bit 1903 (Diweddariad Windows 10 64-did Mai 2019, adeiladwaith 10.0.18362)<br>• CPU Intel 7fed Genhedlaeth neu fwy newydd – neu AMD cyfatebol<br>**Mac**<br>• macOS 10.13 (High Sierra) ac uwch<br>• CPU Intel 6ed Genhedlaeth neu fwy newydd<br><br>Nid yw Aero ar gael ar gyfer dyfeisiau Android, ond mae **Ap Aero Player** ar wahân sy'n eich galluogi chi i weld profiadau Aero ar eich dyfais Android. |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Mae **Adobe Aero** yn ffordd reddfol o adeiladu, gweld a rhannu profiadau trochi AR. |

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Creu Eich Profiad gyda'ch Afatar**<br><br>Ar ôl i chi greu Afatar yn Scaniverse a'i animeiddio yn Mixamo, gallwch ei ddefnyddio i greu profiad AR gan ddefnyddio Adobe Aero.<br><br>Bydd angen i chi ddechrau drwy drosglwyddo'r ffeil .fbx o Mixamo i'r ddyfais y byddwch chi'n ei defnyddio ar gyfer Aero (ee. drwy Dropbox, Google Drive neu iCloud).<br><br>Pwyswch y '+' glas i greu golygfa newydd. Sganiwch arwyneb ac yna tapiwch i greu angor arwyneb. Yna cliciwch y '+' glas eto i ddechrau ychwanegu asedau. Symudwch eich dyfais nes eich bod wedi penderfynu ble i osod yr ased, yna tapiwch.<br><br>Yna, gallwch chi ychwanegu gweithredoedd ychwanegol fel chwarae sain, animeiddio neu gysylltu â gwefan drwy glicio ar y gwrthrych.<br><br>Ar ôl i chi orffen, gallwch chi rannu'r hyn rydych chi wedi'i greu drwy glicio'r eicon yn y gornel dde uchaf ac yna 'Share Link'. Gallwch chi greu cod QR hefyd y gall pobl ei sganio gyda'u ffonau clyfar. Bydd angen iddyn nhw fod ag ap Adobe Aero (neu Ap Aero Player ar gyfer Android) ar eu dyfais i weld y profiad. Am ragor o wybodaeth am rannu'r hyn rydych chi wedi'i greu, gweler yr adran 'Rhannu'r Stori'.<br><br>*(DS: Mae tiwtorial ac asedau yn rhan o Aero hefyd a gallwch chi eu defnyddio i ymgyfarwyddo â'r ap a chreu amgylchedd AR i'w archwilio os nad ydych chi'n gallu creu eich elfennau 3D eich hun).* |



| | |
|---|---|
| **Mynd Gam Ymhellach** | Yn ogystal â gwrthrychau gweledol, gallwch chi ychwanegu synau a naratif at eich profiad i helpu i adrodd y stori a'i gwneud yn fwy o brofiad trochi.<br><br>Gallwch chi ddefnyddio apiau fel Keezy neu Garageband (yn yr adran nesaf) i greu cerddoriaeth i'w hychwanegu at eich amgylchedd AR, neu gallech chi recordio eich hun yn siarad gan ddefnyddio recordydd llais ar eich ffôn clyfar neu gyfrifiadur llechen. Er enghraifft, gallech chi recordio cyflwyniad i'ch cymeriad a'i hoff bethau, ei gas bethau a'i hoff lyfr, neu wrth i chi dapio ar wrthrych, gallai ddweud ei hanes wrthych chi.<br><br>I ychwanegu sain, yn gyntaf, tapiwch ar wrthrych, yna dewiswch 'Behaviours'. Pwyswch '+ trigger', ac yna dewiswch rhwng:<br><br>• Start – Bydd y sain yn dechrau pan fydd y profiad yn cael ei agor gyntaf.<br>• Tap – Bydd y sain yn dechrau pan fydd y gwyliwr yn tapio'r gwrthrych.<br>• Proximity – Bydd y sain yn dechrau pan fydd y gwyliwr bellter diffiniedig o'r gwrthrych.<br><br>Yna dewiswch 'Play Audi' fel eich gweithred, a dewiswch y sain o blith y ffeiliau rydych chi am eu hychwanegu. |
| **Ap Amgen** | Os nad oes gennych chi ddyfais sy'n rhedeg Adobe Aero, neu os ydych chi am i bobl eraill allu gweld yr hyn rydych chi wedi'i greu heb orfod lawrlwytho ap arall, mae Blippbuilder yn ap ar y we y gellir ei ddefnyddio i greu profiadau AR. |

# Ehangu'r Byd

**Yn yr adran hon, mae gweithgareddau fydd yn mynd â'ch gweithgaredd dull trochi o adrodd straeon i'r lefel nesaf, drwy ymgorffori hyd yn oed mwy o elfennau a fydd yn gwneud i'r bobl sy'n profi'r stori ymgolli'n llwyr yn y byd rydych chi wedi'i greu.**

## Creu Diorama

Ewch ati i greu model ffisegol 3D o leoliad eich stori fel y gall ymwelwyr ei weld drostyn nhw eu hunain a dychmygu sut beth fyddai bod yno. Mae llawer o ddeunyddiau y gallech chi eu defnyddio i wneud hyn yn dibynnu ar yr hyn sydd ar gael gennych, gan gynnwys plastisîn, Lego a deunyddiau wedi'u hailgylchu fel bocsys cardbord a photeli plastig.

**Mynd Gam Ymhellach:** Os gwnaethoch chi greu afatarau ffisegol ar gyfer eich cymeriadau, gallech chi ddefnyddio'r rhain a'ch diorama i actio stori a'i ffilmio, neu i greu fideo stop-symudiad. Os ydych chi wedi creu afatar digidol gan ddefnyddio Scaniverse, gallech chi ddefnyddio golwg AR i weld sut mae'r afatar yn edrych yn y lleoliad rydych chi wedi'i greu.

Gallwch wneud eich diorama yn fwy fyth o brofiad ymgolli drwy ei greu y tu mewn i flwch cardbord y gall cynulleidfaoedd roi eu pennau ynddo er mwyn cael profiad 360 gradd! Arbrofwch drwy dorri tyllau i ychwanegu gwahanol effeithiau golau, meddyliwch sut gallech chi ymgorffori sain ac arogleuon a meddyliwch am sut fydd cynulleidfaoedd yn ei ddefnyddio – fyddwch chi'n hongian y blychau o'r nenfwd i gynulleidfaoedd gael godi eu pennau i mewn iddyn nhw neu a fyddwch chi'n ychwanegu handlenni fel y gallan nhw eu codi a'u dal?

## Adrodd Straeon mewn ffordd Synhwyraidd

Mae creu stori synhwyraidd yn ffordd wych a hygyrch o brofi'r dull trochi o adrodd straeon, gan ddefnyddio ychydig iawn o dechnoleg neu heb dechnoleg o gwbl. Mae stori synhwyraidd yn defnyddio pob un o'r pum synnwyr (Gweld, arogli, blasu, cyffwrdd a chlywed) i helpu i adrodd y stori.

Dechreuwch drwy ddewis y stori rydych chi am ei hadrodd. Gweithiwch eich ffordd drwy'r stori a nodi pob moment allweddol. Nesaf, meddyliwch am brofiad synhwyraidd y gallech chi ei gysylltu â phob moment. Er enghraifft, pe baech chi'n adrodd stori Elen Benfelen a'r Tri Arth, gallech chi ddefnyddio:

- Gweld – Ffotograff o arth, neu ddarlun o Elen Benfelen. Tri thedi, un mawr, un canolig ac un bach.
- Arogli – Ceirch uwd
- Blasu – Rhywfaint o uwd neu rywbeth yn ei le, fel bara ceirch neu fflapjacs (gan fod yn ymwybodol o unrhyw alergeddau neu anoddefiadau bwyd yn y grŵp).

- Cyffwrdd – Rhywfaint o ffwr ffug, pad gwres a phad oer (am rhy boeth a rhy oer), gobennydd
- Sain – Synau'r goedwig, taro'r coesau'n ysgafn i wneud sŵn Elen Benfelen yn rhedeg i ffwrdd ar y diwedd, gwneud sŵn Elen Benfelen yn chwyrnu yn y gwely

Wrth i chi adrodd y stori, pasiwch yr eitemau o amgylch y grŵp pan ddaw'r foment allweddol. Byddwch yn ofalus i beidio â symud ymlaen yn rhy gyflym, fel y bydd pawb yn y grŵp yn cael cyfle i fwynhau'r profiad synhwyraidd.

**Mynd Gam Ymhellach:** Gallech wisgo i fyny hefyd fel y cymeriadau yn y stori ac actio rhannau er mwyn ennyn diddordeb y gynulleidfa yn y stori.

## Perfformiad Promenâd

Gallwch chi droi eich theatr, eich ysgol neu eich gofod cymunedol yn theatr ac adrodd eich stori yn arddull theatr bromenâd, gyda'r gynulleidfa'n symud o le i le yn ystod y perfformiad. Gwisgwch fel y cymeriadau o'ch stori ac actio golygfeydd mewn lleoliadau o amgylch eich gofod, gyda'r gynulleidfa'n symud o un lle i'r llall er mwyn clywed rhannau nesaf y stori. Gallai hyn gynnwys unrhyw elfennau digidol rydych chi wedi'u creu fel rhan o'r dull trochi o adrodd straeon. Os nad oes gennych chi fynediad hawdd at dechnoleg, gallech ganolbwyntio ar greu propiau a cherddoriaeth ar gyfer pob rhan o'r stori er mwyn helpu i'r gynulleidfa ymgolli yn y stori.

## Keezy Classic

| | |
|---|---|
| **Gwefan** | https://apps.apple.com/us/app/keezy-classic/id605855595 |
| **Platfform/ Gofynion** | **iOS**<br>Angen iOS neu iPadOS 8.0 neu ddiweddarach. Rhedeg ar iPhone, iPad ac iPod Touch.<br>**Mac**<br>Angen macOS 11.0 neu ddiweddarach a Mac gyda sglodyn Apple M1. |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Offeryn cerdd i blant bach, cerddorion proffesiynol, a phawb yn y canol yw Keezy! Rydych chi'n cael 8 o deils lliw. Gallwch chi recordio sain ar gyfer pob un. Ar ôl recordio, tapiwch y deilsen i'w chwarae yn ôl, neu gallwch bwyso a'i dal i wrando ar lŵp. Ar ôl ei gadw yn y system, recordiwch jam i'w rannu â'ch ffrindiau. |

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | Agorwch yr ap Keezy, yna cliciwch ar y cylch du a'r '+' gwyrdd i ddechrau bwrdd newydd. Fe welwch chi wyth petryal gyda logo meicroffon arnyn nhw.<br><br>Tapiwch flwch i ddechrau recordio sain, ac yna tapiwch eto i roi'r gorau i recordio. Nawr pan fyddwch chi'n tapio'r blwch, bydd yn chwarae'r sain sydd wedi cael ei recordio. Yna mae angen pwyso a'i ddal er mwyn chwarae'r sain dro ar ôl tro.<br><br>I ddileu sain, pwyswch y cylch du ac yna'r 'x' coch. Yna cliciwch ar 'x' yn y blwch i ddileu'r recordiad.<br><br>Unwaith y bydd yr holl flychau'n llawn, gallwch chi ddechrau creu eich seinwedd drwy chwarae'r seiniau. Arbrofwch nes eich bod chi'n hapus, yna cliciwch ar y cylch du eto cyn clicio'r botwm oren ar y gwaelod. Bydd yn dechrau recordio. Cliciwch ar y botwm cylch yn y canol i stopio recordio. Yna gallwch chi rannu'r recordiad drwy glicio ar y botwm glas 'Share' a'i gadw gyda'r ffeiliau ar eich dyfais. |

## GarageBand

| | |
|---|---|
| **Gwefan** | https://www.apple.com/uk/mac/garageband/ |
| **Platfform/ Gofynion** | **iOS**<br>Angen iOS neu iPadOS 15.0 neu ddiweddarach. Rhedeg ar iPhone, iPad ac iPod Touch.<br><br>**Mac**<br>Angen macOS 11.5 neu ddiweddarach. |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | GarageBand yw'r ffordd hawsaf o greu cân sy'n swnio'n wych ar eich Mac, iPhone neu iPad. Gallwch chi ddefnyddio synau o Lyfrgell Sain eich dyfais neu fewnforio eich synau eich hun. |

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Mac**<br>Agorwch yr ap a chreu Prosiect newydd. Dewiswch eich math o drac – rydyn ni'n argymell 'Audio – Record using a microphone or line input – or drag and drop audio files'.<br><br>Yna gallwch chi lusgo a gollwng eich ffeiliau sain (naill ai recordiadau rydych chi wedi'u gwneud neu synau rydych chi wedi'u lawrlwytho o rywle fel **BBC Sound Effects**) a'u golygu nes eich bod yn hapus â'r canlyniad.<br><br>**iOS**<br>Agorwch yr ap ar eich dyfais ac yna dewiswch 'Audio Recorder'. Yna cliciwch yr eicon yn y gornel chwith uchaf i weld y traciau sain a'r llinell amser. Gallwch chi recordio synau'n uniongyrchol i mewn i'r ap drwy glicio ar y botwm recordio coch ar frig y sgrin, neu gallwch fewnforio synau o'r ffeiliau ar eich dyfais drwy glicio ar y botwm 'loop' yn y gornel dde uchaf. |
| **Adnodd Amgen** | Os nad oes gennych chi ddyfais Mac neu iOS, gallwch chi olygu a chreu eich seinwedd eich hun ar gyfrifiadur Windows neu Linux gan ddefnyddio **Audacity**. |



# Rhannu'r Stori

**Ar ôl i chi greu eich stori, fe fyddwch chi eisiau gallu ei rhannu ag eraill er mwyn iddyn nhw allu ei mwynhau hi hefyd! Mae'r adran hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am ffyrdd o wneud hynny yn eich llyfrgell, eich ysgol neu eich gofod cymunedol.**

## Arddangosfa Ffisegol

Os ydych chi wedi creu unrhyw eitemau ffisegol (e.e. cardiau post stori, modelau o wrthrychau neu ddioramau) a bod gennych chi le yn eich lleoliad, gallech chi greu arddangosfa ffisegol sy'n agored i ymwelwyr er mwyn rhannu eich straeon. Gallech chi greu cardiau sy'n esbonio'r stori sy'n gysylltiedig â'r gwrthrychau, neu ychwanegu codau QR (gweler isod) i ymwelwyr eu sganio a darganfod mwy.

Hefyd, gallech chi chwarae unrhyw gerddoriaeth neu seinweddau sydd wedi cael eu creu drwy seinydd er mwyn ychwanegu at yr awyrgylch.

## Llwybr Codau QR

Codau bar sgwâr yw codau QR ac mae modd eu sganio gan ddefnyddio'r camera ar ffôn clyfar er mwyn agor dolen i wefan. Bydd angen i'r cynnwys ar gyfer pob rhan o'r llwybr fodoli yn rhywle ar y rhyngrwyd – er enghraifft, ar Youtube neu ar wefan y llyfrgell – fel bod modd ei weld unwaith y bydd y cod wedi'i sganio. Gallwch chi ddefnyddio gwefan fel **www.qr-code-generator.com** i greu'r codau QR y bydd angen i chi eu rhannu. (Os ydych chi wedi creu prosiect AR gan ddefnyddio Adobe Aero neu Blippbuilder, byddan nhw'n darparu cod QR i chi ei rannu pan fyddwch chi'n cyhoeddi eich prosiect. Pan gaiff y cod ei sganio, bydd yn agor y profiad ar ddyfais y defnyddiwr. Ar gyfer prosiectau Adobe Aero, bydd angen yr ap ar y defnyddiwr er mwyn gallu ei weld).

Os oes sawl elfen i'ch stori, gallwch chi greu llwybr o godau QR o amgylch eich gofod. (Os oes angen eu mwynhau mewn trefn benodol, peidiwch ag anghofio eu rhifo neu ddarparu map fel y gall pobl ddilyn y llwybr!) Ar bob pwynt, bydd y sawl sy'n ymuno â'r profiad yn sganio'r cod, dilyn y ddolen, a bydd y ddelwedd, y fideo neu'r profiad AR yn agor.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol hefyd rhoi cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r codau ar gyfer y bobl hynny sydd ddim mor gyfarwydd â nhw.

## Y Cyfryngau Cymdeithasol a Gwefannau

Os oes tudalen neu wefan cyfryngau cymdeithasol gan eich llyfrgell, eich ysgol neu eich grŵp cymunedol, gallwch chi ei defnyddio i rannu'r straeon rydych chi wedi'u creu. Gallech chi greu albwm lluniau gyda lluniau o'r hyn rydych chi wedi'i greu, neu rannu dolen i brosiect AR a gafodd ei greu yn Aero AR fel bod modd i bobl gael blas

ohono eu hunain gartref.

Mae timau The Reading Agency a Sialens Ddarllen yr Haf yn awyddus i'ch helpu chi i rannu'r hyn rydych chi wedi'i greu yn eang, felly cofiwch ein tagio mewn unrhyw gynnwys rydych chi'n ei roi ar y cyfryngau cymdeithasol (**@readingagency**) ac yn defnyddio'r hashnodau **#SummerOfStories** a **#Gadgeteers**.

Wrth rannu unrhyw beth yn gyhoeddus, cofiwch y bydd angen i chi ddilyn canllawiau eich sefydliad ar ddiogelwch ar-lein a chaniatâd cyfryngau.

## Ap StoryTrails

Fel rhan o'r prosiect StoryTrails, rydyn ni wedi creu ap AR ar gyfer dyfeisiau symudol a fydd yn arwain y rhai sy'n ei ddefnyddio o amgylch gwahanol bwyntiau stori yn eu hardal leol i brofi hanes yn yr union fan lle digwyddodd pethau. Yn y 15 llyfrgell sydd ar lwybr StoryTrails ledled y wlad, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn mynd i mewn drwy 'borth stori' i ddechrau profiad AR StoryTrails. Bydd y llwybrau AR hyn ar gael tan 2023, felly os ydych chi'n digwydd bod yn yr ardal gallwch chi brofi'r llwybrau hyn eich hun!


I'r rhai nad ydyn nhw mewn ardal StoryTrails, byddwch chi'n dal i allu defnyddio'r ap neu'r wefan i brofi llwybrau o bob rhan o'r wlad. Efallai y bydd yr hanesion hyn yn eich ysbrydoli i greu un yn eich ardal chi!

Bydd cyfarwyddiadau ar sut i lawrlwytho a defnyddio'r ap er mwyn cael mynediad i'r llwybrau AR a'r map gofodol yn cael eu rhannu ym mis Mehefin.

| | |
|---|---|
| **1-2 Gorffennaf** | **Omagh** |
| **7-8 Gorffennaf** | **Dundee** |
| **12-13 Gorffennaf** | **Dumfries** |
| **16-17 Gorffennaf** | **Blackpool** |
| **22-23 Gorffennaf** | **Bradford** |
| **27-28 Gorffennaf** | **Sheffield** |
| **30-31 Gorffennaf** | **Lincoln** |
| **6-7 Awst** | **Wolverhampton** |
| **10-11 Awst** | **Abertawe** |
| **13-14 Awst** | **Casnewydd** |
| **20-21 Awst** | **Bryste** |
| **27-28 Awst** | **Swindon** |
| **3-4 Medi** | **Slough** |
| **10-11 Medi** | **Lambeth** |
| **17-18 Medi** | **Lewisham** |



## *The Atlas of Great Journeys: The Story of Discovery in Amazing Maps*




### Ynglŷn â'r Llyfr

Mae The Atlas of Great Journeys yn caniatáu i ddarllenwyr ddilyn ôl traed yr anturiaethwyr mwyaf mentrus wrth iddyn nhw fynd ati i archwilio'r byd mawr dieithr. Mae darluniadau diddorol iawn o fapiau gwreiddiol yn dangos teithiau mwyaf y byd, ac mae tudalennau ffeithiau wedi'u darlunio'n gywrain yn adrodd hanesion pob taith – y peryglon roedden nhw'n eu hwynebu, pa mor hir roedden nhw'n teithio, a llawer mwy.

Yn ogystal â straeon a mapiau wedi'u darlunio'n anhygoel, mae elfen AR unigryw yn perthyn i'r llyfr ac mae'n dod â'r teithiau hyn yn fyw. Defnyddiwch eich cyfrifiadur llechen neu ffôn gyda phob map i olrhain y llwybrau a gymerwyd ganddyn nhw ac i ddarllen am bob cam o'u taith.

Mae'r llyfr ar gael gan y cyflenwyr llyfrgell **Peters** a **Gardners**, yn ogystal â'r holl siopau llyfrau adnabyddus. Mae rhagor o wybodaeth am y llyfr ar gael drwy wylio'r **trelar byr hwn**.

### Sut i'w Ddefnyddio

Cyn dechrau darllen, bydd angen i chi lawrlwytho'r ap 'The Atlas of Great Journeys' sy'n rhad ac am ddim ac sydd ar gael ar gyfer dyfeisiau Android ac iOS (mae gwybodaeth lawn am gydweddoldeb yn yr '**Adran Ynglŷn â**').

Gan ddefnyddio'r ap, byddwch chi'n gallu gweld tudalennau'r map yn y llyfr er mwyn gweld llwybrau tair taith hanesyddol, dychmygu'r amodau o ran tywydd ar y teithiau pan gafodd y teithiau hynny eu cwblhau ac i gael golwg fanylach ar gerbydau'r archwilwyr.

# Cynlluniau Sesiwn

**Rydyn ni wedi creu dau gynllun sesiwn i'ch helpu gyda'ch gwaith cynllunio ac i'ch ysbrydoli i feddwl ymhellach. Mae'r ail gynllun wedi'i gynllunio ar gyfer llyfrgelloedd, ysgolion neu leoliadau eraill nad oes ganddyn nhw o bosibl fynediad at dechnoleg i'r un graddau â lleoliadau eraill, ond sy'n dal i fod eisiau archwilio themâu Sialens Ddarllen yr Haf a StoryTrails gyda'u plant a'u pobl ifanc.**

## Cynllun Un - Creu Profiad AR i'w Archwilio

Yn ystod y sesiwn hon, bydd y plant neu'r bobl ifanc yn gwneud y canlynol:

- Dyfeisio stori i'w hadrodd gan ddefnyddio dull trochi o adrodd straeon
- Creu modelau 3D rhithwir o'u
- Creu seinwedd i helpu i adrodd y stori
- Defnyddio Adobe Aero i gyfuno'r holl elfennau mewn amgylchedd AR

### Cyfarpar sydd ei Angen

- iPad neu iPhone sy'n rhedeg iOS neu iPadOS 14.0 neu ddiweddarach, gyda sglodyn Bionig A12 neu diweddarach. (e.e. iPhone 12 Pro, iPhone 13 Pro, Apple iPad Pro).
- Gwisgoedd ar gyfer gwisgo i fyny fel eich cymeriadau

### Gweithgaredd Un – Dyfeisio Stori

Fel grŵp neu'n unigol, bydd plant yn meddwl am stori y maen nhw am ei hadrodd drwy ddefnyddio dull trochi o adrodd straeon. I gael syniadau am weithgareddau i helpu gyda'r rhan hon, edrychwch ar yr adran **Canfod Eich Llwybr** o'r pecyn gweithgareddau hwn.

### Gweithgaredd Dau – Creu Modelau 3D

Amser i chwarae gwisgo i fyny! Dewiswch wisg ar gyfer pob un o'r cymeriadau yn eich stori. Yna defnyddiwch **Scaniverse** i sganio eich gilydd a chreu Afatarau 3D i'w defnyddio yn eich prosiect AR. Gallwch ddefnyddio **Mixamo** i ychwanegu animeiddiadau at y rhain cyn eu hychwanegu at Adobe Aero yn nes ymlaen.

Os ydych chi'n brin o amser, neu os nad oes gennych chi fynediad at ddyfais sy'n gallu rhedeg Scaniverse, gallech chi anwybyddu'r cam hwn ac yn lle hynny defnyddio'r asedau parod yn Adobe Aero i adrodd eich stori. Defnyddiwch y rhain fel awgrymiadau wrth lunio'r stori yn y gweithgaredd blaenorol.

### Gweithgaredd Tri – Ychwanegu Synau er mwyn Adrodd y Stori

Gan ddefnyddio'r **Ap Recordydd Llais** ar eich dyfais, recordiwch glip sain byr ar gyfer pob cymeriad – gallai fod yn sain, neu gallai fod yn glip o'r cymeriad yn darllen rhan o'r stori. Pan fyddwch chi'n rhoi'r prosiect at ei gilydd, bydd y sain yn chwarae pan fydd rhywun yn tapio

ar y cymeriad.

**Gweithgaredd Pedwar - Creu Amgylchedd AR**

Gan ddefnyddio **Adobe Aero**, rydyn ni nawr yn mynd i ddod â'r holl elfennau rydych chi wedi'u creu at ei gilydd. Cyn i chi ddechrau, bydd angen i chi drosglwyddo'r holl ffeiliau i'r ddyfais rydych chi'n ei defnyddio i greu'r prosiect AR.

Pwyswch y botwm glas '+' i greu golygfa newydd. Sganiwch arwyneb ac yna tapiwch i greu angor arwyneb. Yna cliciwch ar y '+' glas eto i ddechrau ychwanegu asedau. Symudwch eich dyfais nes eich bod wedi penderfynu ble i osod yr ased, yna tapiwch.

Gallwch chi ychwanegu gweithredoedd ychwanegol fel chwarae sain, animeiddio neu gysylltu â gwefan drwy glicio ar y gwrthrych.

Ar ôl i chi orffen, gallwch chi rannu'r hyn rydych chi wedi'i greu drwy glicio'r eicon ar y brig ar yr ochr dde ac yna 'Share Link'. Gallwch chi greu cod QR hefyd i bobl ei sganio gyda'u ffonau clyfar. Bydd angen yr ap Adobe Aero (neu ap Aero Player ar gyfer Android) ar eu dyfais er mwyn iddyn nhw weld y profiad.

## Cynllun Dau – Creu StoryTrail Ffisegol

### Cyfarpar sydd ei Angen

- Papur a Beiros/Pensiliau
- Deunyddiau crefft fel cardbord, ffabrig, paent, glud, poteli plastig etc.

**Gweithgaredd Un – Dyfeisio Stori**

Fel grŵp neu'n unigol, bydd plant yn meddwl am stori y maen nhw am ei hadrodd drwy ddefnyddio dull trochi o adrodd straeon. I gael syniadau am weithgareddau i helpu gyda'r rhan hon, edrychwch ar yr adran **Canfod Eich Llwybr** o'r pecyn gweithgareddau hwn.

**Gweithgaredd Dau – Creu Gwrthrych**

O'r stori rydych chi wedi'i dyfeisio, nodwch wrthrych a allai helpu i adrodd y stori. Gan ddefnyddio deunyddiau crefft, ewch ati i greu'r gwrthrych hwn i'w arddangos rhywle yn y llyfrgell. Ar ôl i'r gwrthrych gael ei greu, gofynnwch iddyn nhw greu 'plac' a fydd yn adrodd y stori sy'n gysylltiedig â'r gwrthrych.

Gweithiwch gyda'r plant i ddod o hyd i leoedd yn eich llyfrgell, eich ysgol neu fan cymunedol i arddangos pob un o'r gwrthrychau.

**Mynd Gam Ymhellach:** Meddyliwch am y pum synnwyr a sut y gallech chi ddefnyddio'r rhain i wella'r stori. Er enghraifft, a oes arogl penodol a allai ychwanegu at y stori? Ceisiwch ymgorffori hyn yn y gwrthrych i wneud y stori'n brofiad trochi i raddau mwy.

**Gweithgaredd Tri – Llunio Map**

Er mwyn helpu ymwelwyr i fwynhau'r stori yn y drefn gywir, lluniwch fap o'r lleoliad a labelu ymhle mae pob gwrthrych yn y gofod. Os oes trefn benodol i'r stori, cofiwch ychwanegu rhifau!


# Canllawiau/Gwybodaeth Ychwanegol

## Teclynwyr – Sialens Ddarllen yr Haf 2022

**Enw'r Her eleni yw 'Teclynwyr' a bydd yn dathlu rôl allweddol y dychymyg mewn darllen a'r gwyddorau. Datblygwyd Sialens Ddarllen yr Haf 2022 ar y cyd â'r Science Museum Group, a bydd yn dangos i blant fod gwyddoniaeth o'n cwmpas bob dydd ac yn eu hysbrydoli i ryddhau eu chwilfrydedd a'u creadigrwydd!**

Bydd ein Her yn cael ei gosod mewn clwb gwyliau haf ffuglennol lle bydd ein harloeswyr ifanc, neu ein 'Teclynwyr', yn dod at ei gilydd i feddwl yn greadigol a gweithio fel tîm er mwyn cynllunio'r parti gorau erioed ar gyfer dathliad ffair haf y dref. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn yr her yn cwrdd â chwe chymeriad hwyliog ac yn eu helpu i feddwl am ddyfeisiadau cŵl ar gyfer y parti haf. Byddan nhw'n cael eu cyflwyno i sawl agwedd ar ymgysylltu â gwyddoniaeth, gan gynnwys bwyd, ffasiwn, cerddoriaeth a chwaraeon – rhywbeth i bawb ei fwynhau!

Cyflwynir Sialens Ddarllen yr Haf gan The Reading Agency mewn partneriaeth â llyfrgelloedd cyhoeddus ac fe'i hariennir gan Arts Council England. Mae'r Her yn annog plant rhwng 4 ac 11 oed i fwynhau manteision darllen er pleser dros wyliau'r haf drwy osod targed darllen iddyn nhw eu hunain, darllen eu llyfrau, a derbyn gwobrau a chymhellion ar hyd y ffordd. Drwy hyn, mae'n rhoi llawer o hwyl ac yn helpu i atal y 'gostyngiad' mewn darllen yn ystod yr haf. Bob blwyddyn, mae'r Her yn ysgogi dros 700,000 o blant i barhau i ddarllen er mwyn meithrin eu sgiliau a'u hyder. Yn 2022, bydd yr Her yn cael ei lansio ar-lein ac mewn llyfrgelloedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ar 25 Mehefin. Bydd yr Her yn cael ei lansio mewn llyfrgelloedd yng Nghymru a Lloegr ar 9 Gorffennaf.



## The Reading Agency

Mae The Reading Agency yn elusen genedlaethol sy'n mynd i'r afael â heriau mawr bywyd drwy ddefnyddio'r pŵer rydyn ni'n gwybod sy'n perthyn i ddarllen. Rydyn ni'n cydweithio'n agos â phartneriaid i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni ar gyfer pobl o bob oed a chefndir: ein gweledigaeth ni yw byd lle gall pawb wella ei fywyd drwy ddarllen. Rydyn ni'n helpu 1.9 miliwn o bobl i elwa o ddarllen bob blwyddyn, drwy ein rhaglenni, ein hymgyrchu diflino, ein rhwydweithiau rhagorol a'n pŵer i ddylanwadu, herio a sicrhau bod newid yn digwydd. Ariennir yr Asiantaeth Ddarllen gan Arts Council England.

**Gwefan** | **Twitter** | **Facebook** | **Instagram** | **Adnoddau**




Mae The Reading Agency wedi rhedeg rhaglen **Clonclyfrau** ers 2001, a dyma'r rhwydwaith mwyaf y DU o grwpiau darllen plant. Mae darllen er pleser yn cael mwy o effaith ar lwyddiant plant nag addysg neu ddosbarth cymdeithasol. Mae grwpiau Clonclyfrau, sy'n cael eu cynnal mewn llyfrgelloedd ac ysgolion, yn helpu plant i ddatblygu arferion darllen a fydd yn para gydol eu hoes. Mae Clonclyfrau yn fodel hyblyg y gellir ei ddefnyddio gyda phlant o 4 i 12 oed, pob gallu gwahanol ac mewn grwpiau wedi'u targedu neu grwpiau cymysg.

Mae **Sialens Ddarllen Athrawon** The Reading Agency yn gyfle i staff ysgolion a llyfrgelloedd ehangu eu gwybodaeth am lyfrau plant a datblygu eu dealltwriaeth o addysgeg darllen er pleser. Mae'r Her, sy'n cael ei chynnal gan The Reading Agency mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored, yn gwahodd y rhai sy'n cymryd rhan i ymuno â chymuned gefnogol ac ysbrydoledig o addysgwyr a darllenwyr, gosod eu nod darllen eu hunain, rhannu adolygiadau, cyrchu adnoddau, a chyflwyno enghraifft o ymarfer. Cymerodd dros 2,700 o bobl ran yn yr Her y llynedd, ac mae'n agored i holl staff addysg, ysgolion a llyfrgelloedd cyhoeddus, yn ogystal ag athrawon dan hyfforddiant. Mae Sialens Ddarllen Athrawon 2022 yn lansio ledled y DU ar 25 Mehefin 2022.



Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu i gael rhagor o wybodaeth am Sialens Ddarllen yr Haf, e-bostiwch **SummerReadingChallenge@ReadingAgency.org.uk**. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill, e-bostiwch **Comms@ReadingAgency.org.uk**.





## StoryTrails

Bydd StoryTrails yn digwydd rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022 yn y lleoliadau canlynol: Blackpool, Bradford, Bryste, Dumfries, Dundee, Lincoln, Llundain (Lambeth a Lewisham), Casnewydd, Omagh, Sheffield, Slough, Abertawe, Swindon a Wolverhampton. Penllanw'r digwyddiadau fydd ffilm newydd sbon i'r BBC a'r Sefydliad Ffilm Prydain (BFI) gan David Olusoga: ffilm sy'n archwilio ein hanes, ystyried ein bywydau heddiw a dechrau sgyrsiau newydd am ble gallem fynd nesaf..

Arweinir StoryTrails gan academi StoryFutures Academy, sy'n cael ei rhedeg gan Royal Holloway, Prifysgol Llundain a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (National Film & Television School - NFTS). Fe'i darperir mewn partneriaeth â'r BFI, David Olusoga, Uplands Television, Iso Design a Nexus Studios gan ddefnyddio technoleg arloesol gan Niantic, gwneuthurwyr Pokémon GO. Bydd yr arbenigwyr digwyddiadau, Produce UK, yn dod â'r ffilm yn fyw yn rhwydwaith cenedlaethol llyfrgelloedd The Reading Agency.

**Gwefan** | **Lawrlwythwch y Pecyn Cymorth Cyfathrebu**

| Dyddiadau | Lleoliad |
|---|---|
| 1-2 Gorffennaf | Omagh |
| 7-8 Gorffennaf | Dundee |
| 12-13 Gorffennaf | Dumfries |
| 16-17 Gorffennaf | Blackpool |
| 22-23 Gorffennaf | Bradford |
| 27-28 Gorffennaf | Sheffield |
| 30-31 Gorffennaf | Lincoln |
| 6-7 Awst | Wolverhampton |
| 10-11 Awst | Abertawe |
| 13-14 Awst | Casnewydd |
| 20-21 Awst | Bryste |
| 27-28 Awst | Swindon |
| 3-4 Medi | Slough |
| 10-11 Medi | Lambeth |
| 17-18 Medi | Lewisham |

## UNBOXED: Creativity in the UK

Mae UNBOXED: Creativity in the UK yn ddathliad unwaith-mewn-oes o greadigrwydd, sy›n digwydd ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban ac ar-lein rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2022. Mae UNBOXED yn datgelu 10 syniad newydd ysbrydoledig ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, y celfyddydau a mathemateg gan feddyliau eithriadol o ddisglair sy›n gweithio mewn cydweithrediadau annisgwyl. Mae digwyddiadau na ddylid eu colli a phrofiadau bythgofiadwy yn dod i leoedd a gofodau ar hyd a lled y DU: o drefi arfordirol a chanol dinasoedd i ardaloedd syfrdanol o harddwch naturiol.

Gall pawb yn y DU fwynhau UNBOXED, yn bersonol, ar y teledu, ar y radio ac ar-lein – a›r cyfan yn rhad am ddim. Ac mae ffyrdd dirifedi o gymryd rhan ym mhob elfen o raglen UNBOXED: ymgolli›n llwyr mewn rhaglenni dysgu ledled y DU, cymryd rhan mewn gweithdai a digwyddiadau arbennig, hyd yn oed bod â rhan ganolog wrth i rai o›r prosiectau syfrdanol hyn ddod yn fyw.

UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yw›r rhaglen greadigol fwyaf a mwyaf uchelgeisiol i gael ei chyflwyno erioed yn y wlad hon. Caiff y rhaglen ei hariannu a›i chefnogi gan bedair llywodraeth y DU, ac mae wedi›i chomisiynu ar y cyd gan Gyngor Dinas Belfast, EventScotland a Cymru Greadigol. Ymunwch â miliynau ar gyfer y cyfle pwysig hwn i archwilio'r ffordd y mae gan greadigrwydd – ein creadigrwydd ni – y pŵer i newid y byd.

**Gwefan**

## StoryFutures Academy

StoryFutures Academy yw Canolfan Genedlaethol y DU ar gyfer dull trochi o Adrodd Straeon, a gaiff ei redeg gan Royal Holloway, Prifysgol Llundain a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (NFTS). Caiff ei hariannu gan yr Arts and Humanities Research Council fel rhan o gronfa her strategaeth ddiwydiannol UK Research and Innovation, ac mae'r academi ei hun wedi'i lleoli yng nghlwstwr StoryFutures R&D. Mae'n datblygu rhaglenni hyfforddi ac ymchwil creadigol arloesol, er mwyn sicrhau mai gweithlu creadigol y DU yw'r gweithlu creadigol mwyaf medrus yn y byd o ran defnyddio VR, AR a MR ar gyfer y dull trochi o adrodd straeon.

Hyd yma, mae cyn-fyfyrwyr labordai'r StoryFutures Academy yn cynnwys Asif Kapadia, Cyfarwyddwr sydd wedi ennill Oscar a BAFTA, Paul Franklin, Goruchwyliwr VFX ac enillydd Oscar, Gillian Wearing OBE, artist cysyniadol ac enillydd Gwobr Turner, a Fozia Khan, Golygydd Comisiynu Rhaglenni Dogfen Channel 4.

Buddsoddwyd mwy na £500,000 mewn dull trochi o gynhyrchu yn y DU, ar draws cyd-gynyrchiadau gyda BBC3, a chyllid datblygu Production Booster a Kickstart. Common Ground, rhaglen ddogfen VR sydd wedi ennill sawl gwobr, oedd y cyd-gynhyrchiad cyntaf erioed i gael ei ariannu, ac fe gafodd ei ddangos am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilm Tribeca ar ddechrau 2019. Dangoswyd Violence, cydweithrediad artistig rhwng Shola Amoo, y cyfarwyddwr ffilm (The Last Tree) ac Eleanor Whitley, y cynhyrchydd (Marshmallow Laser Feast), am y tro cyntaf erioed yng Ngŵyl Ffilm Tribeca, fel rhan o'r Cannes XR Virtual yn y Marché du film de Cannes, a gynhaliwyd ar-lein ac mewn realiti rhithwir, ym mis Mehefin 2020.

**Gwefan**

## The Atlas of Great Journeys ganPhilip Steele, darluniwyd gan Christian Gralingen (Welbeck, 2021)

Mae The Atlas of Great Journeys yn caniatáu i ddarllenwyr ddilyn ôl traed yr anturiaethwyr mwyaf mentrus wrth iddyn nhw fynd ati i archwilio'r byd mawr dieithr. Mae darluniau map gwreiddiol a diddorol yn dangos teithiau mwyaf y byd, ac mae tudalennau ffeithiau wedi'u darlunio'n gywrain yn adrodd hanesion pob taith – y peryglon roedden nhw'n eu hwynebu, pa mor hir y buon nhw'n teithio, a llawer mwy.

Yn ogystal â mapiau a straeon wedi'u darlunio mewn ffordd anhygoel, mae gan y llyfr hwn elfen Realiti Estynedig unigryw sy'n dod â'r teithiau hyn yn fyw. Defnyddiwch eich cyfrifiadur llechen neu ffôn ar bob un o'r mapiau er mwyn olrhain y llwybrau a ddilynwyd ganddyn nhw a darllen am bob cam o'u teithiau.

Mae'r ap rhad ac am ddim hwn ar gael ar gyfer iPhones neu iPads cydnaws sy'n rhedeg iOS 11.3 ac uwch, iPhone SE ac uwch, ac iPad 5ed Genhedlaeth ac uwch, neu ddyfeisiau Android cydnaws sy'n rhedeg Android 7.0 ac uwch ac sy'n gweithio gydag ARCore v1.7 Google neu uwch.

### Awdur: Philip Steele

Mae Philip Steele yn awdur plant o fri sydd wedi ysgrifennu llawer o lyfrau, gan gynnwys 'The Incas and Macchu Picchu' ac 'I Wonder Why The Pyramids Were Built'.

### Darlunydd: Christian Gralingen

Mae Christian Gralingen yn gweithio fel Cyfarwyddwr Celf a Darlunydd yn Berlin. Mae ganddo ddiploma mewn Dylunio Cyfathrebu o Brifysgol Duisburg-Essen (Folkwang). Mae ei restr cleientiaid yn cynnwys asiantaethau dylunio, tai cyhoeddi, cylchgronau, sefydliadau academaidd a sefydliadau eraill.



## Canllawiau Diogelwch Digidol

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys dolenni i wefannau ac apiau allanol. Er bod y rhain wedi'u hadolygu wrth greu'r pecyn hwn, nid oes gan The Reading Agency a StoryTrails unrhyw reolaeth dros gynnwys unrhyw wefan neu ap cysylltiedig ac nid ydyn nhw'n gyfrifol am y gwefannau hyn, eu cynnwys na'r graddau y maen nhw ar gael. Rydyn ni'n eich annog i adolygu'r adnoddau hyn, yn unol â chanllawiau eich sefydliad eich hun, cyn eu defnyddio yn eich gwaith gyda phlant.

Wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, dylid sicrhau eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel. Fel canllaw, dyma'r rheolau ar gyfer defnyddio gwefan Sialens Ddarllen yr Haf, y gallwch eu defnyddio i greu eich rheolau eich hun gyfer eich prosiect neu grŵp:

1. **Cadwch yn ddiogel** – peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol yn eich negeseuon. Mae hyn yn cynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad stryd a rhif ffôn.
2. **Peidiwch â chynnwys manylion personol unrhyw un arall yn eich negeseuon,** gan gynnwys rhieni, gwarcheidwaid, athrawon neu arweinwyr grŵp.
3. **Peidiwch â phostio negeseuon anghwrtais, hiliol, sarhaus, treisgar neu ddi-chwaeth i'r safle.**
4. **Dylech chi drin pawb â pharch** – hyd yn oed os oes gan rywun farn wahanol i'ch un chi, peidiwch â gadael iddo fynd yn bersonol.
5. **Peidiwch â dyrchafu gweithgareddau anghyfreithlon neu beryglus** – mae'n iawn siarad am yr hyn sy'n digwydd mewn llyfr, ond peidiwch ag annog eraill i ddilyn ei esiampl.
6. **Peidiwch ag ysgrifennu unrhyw beth cas am unrhyw un**, gan gynnwys defnyddwyr eraill, rhieni, gwarcheidwaid, athrawon, gweithwyr cymdeithasol, arweinwyr grŵp a phobl enwog.
7. **Peidiwch ag ysgrifennu popeth mewn PRIFLYTHRENNAU neu emojis** – nid yw'n hawdd i bawb eu darllen.
8. **Peidiwch â phostio negeseuon cyfan mewn iaith negeseuon testun** – mae'n iawn byrhau rhai geiriau ond nid yw pawb yn deall iaith negeseuon testun neu'n gallu ei darllen yn gyflym.
9. **Peidiwch â phostio dolenni i wefannau eraill** – nid oes unrhyw ffordd o reoli'r hyn y mae'r gwefannau hyn yn ei gynnwys.
10. **Peidiwch â thorri rheolau hawlfraint.** Mae hyn yn golygu na ddylech bostio testun o lyfrau rhywun arall.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn canllawiau diogelu, canllawiau diogelwch ar-lein a chanllawiau caniatâd cyfryngau eich sefydliad eich hun hefyd wrth greu a rhannu cynnwys ar-lein.

# Geirfa

**Realiti Estynedig (AR)**

Mae Realiti Estynedig (AR) yn cyfeirio at dechnoleg sy'n arosod delwedd wedi ei chreu gan gyfrifiadur ar olwg defnyddiwr o'r byd go iawn, gan ddarparu golwg gyfansawdd.

**Afatar**
Eicon neu ffigur sy'n cynrychioli unigolyn mewn gofod digidol, fel gêm fideo neu fforwm ar y rhyngrwyd.

**Geogelcio**
Gweithgaredd lle mae defnyddwyr yn chwilio am eitem, neu gynhwysydd sy'n cynnwys eitemau, sydd wedi'i guddio mewn lleoliad penodol gan ddefnyddio cyfesurynnau a bostiwyd ar y rhyngrwyd.

**Technoleg Ymgolli**
Technolegau sy'n cael eu defnyddio i greu profiad drwy gyfuno'r byd ffisegol ag amgylchedd digidol neu efelychiadol.

**Trochi/Ymgolli**
Y teimlad o deimlo'n bresennol mewn amgylchedd digidol.

**Realiti Cymysg (MR neu MX)**

Y broses o angori gwrthrychau rhithwir i'r byd go iawn a galluogi defnyddwyr i ryngweithio â nhw.

**Cod QR**

Mae Cod Ymateb Sydyn (QR) yn fath o god bar sy'n cynnwys data, fel dolen i wefan. Bellach, gellir defnyddio camerâu rhai ffonau clyfar fel sganiwr Cod QR, ac wrth sganio'r cod, bydd y ffôn yn agor y ddolen sydd yn y cod gan ddefnyddio'r porwr gwe o'ch dewis.

**Realiti Rhithwir (VR)**

Ystyr Realiti Rhithwir (VR) yw pan fo'r defnyddiwr yn ymgysylltu â byd sydd wedi'i greu'n gwbl ddigidol. Dyma'r defnydd o dechnoleg gyfrifiadurol i greu amgylchedd wedi'i efelychu neu wedi'i ddychmygu'n llwyr.